Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 18 June 2025 at The Ostreme Centre 6.30pm and via TEAMS

**Councillors Present:** Cllrs Ian Scott (Chair), Francesca O'Brien, Phil Keeton, Pam Erasmus, Trevor Carr, Laura Gilbert and Sara Keeton.

**Officers Present:** Ian Hughes - CSO

**CSD2506-01** **Apologies:**
Cllr Will Thomas

**CSD2506-02** **Declarations of Interest**
None

**CSD2506-03** **To approve the minutes of the previous meeting as a true record.**
To approve the minutes of the meeting held on 19 March 2025 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes from the 19 March 2025, meeting as a true and accurate record.

Cllr Gilbert arrived at the meeting at 6.31pm

**CSD2506-04** **Elect Vice Chair for Committee**

The Chair, Cllr Scott sought volunteers for the role of Vice Chair. Cllr Laura Gilbert volunteered her services and was formally nominated by Cllr O'Brien.
No other Councillor volunteered.

**RESOLVED:** Cllr Laura Gilbert appointed as Vice Chair for the committee

**CSD2506-05** **Outstanding Actions from Previous Meetings**

CSO informed the committee that there are no outstanding actions.

Mumbles Community Council

**CSD2506-06** **Exercise Equipment on West Cross Seafront Update**

The Chair Cllr Scott informed the committee that the exercise equipment had been successfully installed and is being used.

**CSD2506-07** **Community Bus**

Cllr O'Brien outlined how she had met with Cllr James of Pennard Community Council and other representatives together with Cllrs. O'Connor and Thomas and discussed the current funding concerns over the Pennard Community Bus.

During the discussion that followed, current routes together with additional potential routes were discussed together with the regularity of services, currently only three journeys are made on two weekdays.

The success of Bishopston Community Council's, Community Bus Service was noted, and whilst profit making is not the main priority it is an important consideration.
The Councillors were keen to maintain and extend this service which is an important opportunity for residents, particularly the elderly, the young and those with disabilities.
Due to Pennard Community Council's current financial circumstances Councillors were keen to progress the matter as a matter of urgency but believed that they required additional information particularly in relation to financial aspects. The possibility of holding an addition committee prior to July's Full Council in order to make a suitable recommendation for Full Council was also considered.

**RESOLVED:** Cllr O'Brien to make urgent further enquiries on the above issues with a view to a decision being made by the committee as to whether and financial support should be recommended

**CSD2506-08** **Bereavement Support Group**

**RESOLVED:** Due to no additional information having been provided, this item to be brought back to July's Committee Meeting.

**CSD2506-09** **Re-surfacing/SUDS requirement for Langland Tennis Court**

A discussion took place in relation to the cost of obtaining a SUDS approval from SCC in line with Welsh Govt policy. The cost of acquiring this standard is in the region of £12,000. Due to the cost to MCC further clarification to be sought.

**ACTION**: In liaison with The Chair, Cllr Scott, the Clerk to seek clarification on the need for SUDS requirement form SCC, in light of the surface at Langland Tennis Courts having only recently been replaced.

**CSD2506-10** **Vandalism (graffiti) at Mumbles Skate Park and criminal damage to parked cars within the vicinity of Waverley Drive (paintwork being 'keyed' and tyres being 'slashed')**

Cllr Scott set out a number of incidents where Mumbles Skate Park had been sprayed with paint. It was the consensus of the committee that such graffiti was not in keeping with Mumbles Skate Park as it is not an 'urban' venue.

The Chair, Cllr Scott had liaised with the local PCSO, Patrick. A discussion took place on how best to remove the graffiti and how the concrete can be damaged with the incorrect cleaning product. Cllr Sara Keeton believed that she had contacted The Clerk requesting that Ashley clean up The Skatepark having also provided details of the appropriate cleaning details.

**ACTION** CSO to email The Clerk seeking clarification whether she had received an email from Cllr Keeton relating to above issues.

Regarding damage to vehicles within the vicinity of Waverley Drive the Chair, Cllr Scott again stated that he had liaised with the local PCSO.

During the discussion that followed the committee believed that they would benefit from an overview of the situation from Patrick (PCSO) including methods to combat such incidents including the use of CCTV.

**ACTION** CSO to invite the local PCSO, Patrick to the next committee meeting to provide an overview on both the graffiti at Mumbles Skatepark and to damage to vehicles in Waverley Drive.

Meeting finished 7.22pm

Next Meeting 16th July 2025

CSD2506-MI

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2025 yng Nghanolfan Ostreme am 6.30pm a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ian Scott (Cadeirydd), Francesca O'Brien, Phil Keeton,
Pam Erasmus, Trevor Carr, Laura Gilbert a Sara Keeton.

**Swyddogion yn bresennol:** Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CSD2506-01** **Ymddiheuriadau:**
Y Cynghorydd Will Thomas

**CSD2506-02** **Datganiadau o fuddiant**
Dim

**CSD2506-03** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 19 Mawrth 2025 fel cofnod gwir a chywir.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Gilbert y cyfarfod am 6.31pm

**CSD2506-04** **Ethol is-gadeirydd y pwyllgor**

Roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, yn chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Laura Gilbert ei gwasanaethau'n wirfoddol ac fe'i henwebwyd yn ffurfiol gan y Cynghorydd O'Brien.
Ni wirfoddolodd unrhyw gynghorydd arall.

**PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd Laura Gilbert yn Is-gadeirydd y pwyllgor

**CSD2506-05** **Camau gweithredu heb eu cwblhau o gyfarfodydd blaenorol**

Hysbysodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y pwyllgor nad oes unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd.

**CSD2506-06** **Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr offer ymarfer corff ar lan y môr yn West Cross**

Hysbysodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, y pwyllgor fod yr offer ymarfer corff wedi'i osod yn llwyddiannus a'i fod yn cael ei ddefnyddio.

**CSD2506-07** **Bws cymunedol**

Amlinellodd y Cynghorydd O'Brien sut y cyfarfu â'r Cynghorydd James o Gyngor Cymuned Pennard a chynrychiolwyr eraill ynghyd â'r Cynghorwyr O'Connor a Thomas a thrafod y pryderon ariannu presennol ynghylch Bws Cymunedol Pennard.

Yn ystod y drafodaeth a gafwyd, trafodwyd llwybrau presennol ynghyd â llwybrau posibl ychwanegol ynghyd ag amlder gwasanaethau oherwydd ar hyn o bryd dim ond tair taith sy'n cael eu gwneud ar ddau ddiwrnod yn ystod yr wythnos.

Nodwyd llwyddiant Gwasanaeth Bysiau Cymunedol Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt, ac er nad gwneud elw yw'r prif flaenoriaeth, mae'n ystyriaeth bwysig. Roedd y cynghorwyr yn awyddus i gynnal ac ymestyn y gwasanaeth hwn sy'n bwysig i drigolion, yn enwedig yr henoed, yr ifanc ac unigolion sydd ag anableddau.
Oherwydd amgylchiadau ariannol presennol Cyngor Cymuned Pennard, roedd y cynghorwyr yn awyddus i fwrw ymlaen â'r mater ar frys ond roeddent o'r farn bod angen gwybodaeth ychwanegol arnynt, yn enwedig mewn perthynas ag agweddau ariannol. Ystyriwyd hefyd y posibilrwydd o gynnal pwyllgor ychwanegol cyn cyngor llawn mis Gorffennaf er mwyn gwneud argymhelliad addas ar gyfer y cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cynghorydd O'Brien yn gwneud ymholiadau pellach brys ar y materion uchod gyda'r bwriad o wneud penderfyniad gan y pwyllgor ynghylch a ddylid argymell cefnogaeth ariannol.

**CSD2506-08** **Grŵp cymorth mewn profedigaeth**

**PENDERFYNWYD:** Gan nad oes unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi'i darparu, bydd yr eitem hon yn cael ei chyflwyno'n ôl i gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf.

CSD2506-09

**Rhoi wyneb newydd ar gwrt tennis Langland a gwneud gwaith ar y systemau draenio cynaliadwy yno.**

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â chost cael cymeradwyaeth SDCau gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae cost caffael system i'r safon hon tua £12,000. Oherwydd y gost i Gyngor Cymuned y Mwmbwls, rhaid ceisio eglurhad pellach.

**CAM GWEITHREDU:** Mewn cysylltiad â'r Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, y clerc i geisio eglurhad ynghylch yr angen am ofyniad SDCau gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, yng ngoleuni'r ffaith mai dim ond yn ddiweddar y gosodwyd arwyneb newydd ar gwrt tennis Langland.

CSD2506-10

**Fandaliaeth (graffiti) ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls a difrod troseddol i geir wedi'u parcio yng nghyffiniau Waverley Drive (rhywun yn crafu paent ag allwedd ac yn torri teiars â chyllell)**

Nododd y Cynghorydd Scott nifer o ddigwyddiadau lle roedd Parc Sglefrio'r Mwmbwls wedi cael ei chwistrellu â phaent. Consensws y pwyllgor oedd nad oedd graffiti o'r fath yn gydnaws â Pharc Sglefrio'r Mwmbwls gan nad yw'n lleoliad 'trefol'.

Roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, wedi cysylltu â Swyddog Cefnogi Cymunedol lleol yr Heddlu, Patrick. Cynhaliwyd trafodaeth ar y ffordd orau o gael gwared ar y graffiti a sut y gall y cynnyrch glanhau anghywir niweidio'r concrit. Credai'r Cynghorydd Sara Keeton ei bod wedi cysylltu â'r clerc yn gofyn i Ashley lanhau'r Parc Sglefrio ar ôl darparu manylion y glanhau priodol hefyd.

**GWEITHREDU** Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn anfon e-bost at y clerc yn gofyn am eglurhad a oedd hi wedi derbyn e-bost gan y Cynghorydd Keeton yn ymwneud â'r materion uchod.

O ran difrod i gerbydau yng nghyffiniau Waverley Drive, dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, unwaith eto ei fod wedi cysylltu â Swyddog Cefnogi Cymunedol lleol yr Heddlu.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, credai'r pwyllgor y byddent yn elwa o drosolwg o'r sefyllfa gan Patrick (Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) gan gynnwys dulliau i fynd i'r afael â digwyddiadau o'r fath gan gynnwys defnyddio teledu cylch cyfyng.

**GWEITHREDU** Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn gwahodd Swyddog Cefnogi Cymunedol lleol yr Heddlu, Patrick, i gyfarfod nesaf y pwyllgor i roi trosolwg o'r graffiti ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls a'r difrod i gerbydau yn Waverley Drive.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.22pm

Cyfarfod nesaf 16 Gorffennaf 2025